**ADRODDIAD I'R CABINET**
Chwefror 19, 2015

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Gareth Thomas

**Pwnc:** Ad-drefnu Darpariaeth Addysg yn Nalgylch Y Berwyn

**Swyddog Cyswllt:** Iwan T Jones – Cyfarwyddwr Corfforaethol

---

**Y penderfyniad a geisir/pwrpas yr adroddiad**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw ceisio caniatâd Cabinet y Cyngor i fwrw ymlaen a gweithredu'r broses statudol i orffen y broses ad-drefnu ysgolion yn nalgylch Y Berwyn. Yn benodol :

1. Cael caniatâd Cabinet y Cyngor i gynnal ymgynghoriad statudol yn unol ag Adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, yn nalgylch Y Berwyn ar y model a ffafrir, sef cynnig i gau ysgolion Beuno Sant, Bro Tegid ac Ysgol Y Berwyn yn nhref Y Bala, a sefydlu Ysgol Gydol Oes 3-19 ("Campws Gydol Oes") ar safle presennol Ysgol Y Berwyn.

2. Cael caniatâd Cabinet y Cyngor i gynnal ymgynghoriad statudol ar ffedereiddio tair ysgol wledig dalgylch Y Berwyn, sef ysgolion Bro Tryweryn, Ffridd y Llyn ac OM Edwards, yn unol â darpariaethau Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014.

Mae'r ddau fater yma'n rhai sy'n gofyn am ddau benderfyniad ar wahân. Serch hynny mae'r ddau yn ymwneud ag ad-drefnu darpariaeth addysg yn nalgylch Y Berwyn, ac felly'n addas i'w hystyried o fewn yr un adroddiad Cabinet.

---

**Barn yr aelodau lleol**

Bydd unrhyw sylwadau gan yr Aelodau Lleol yn cael eu cyflwyno yn y cyfarfod.

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn gofyn am ddau benderfyniad, sef :

i. Cael caniatâd Cabinet y Cyngor i gychwyn cyfnod o ymgynghori statudol ar y cynnig i ad-drefnu darpariaeth addysg yn nalgylch Y Berwyn cyn cwblhau'r broses ad-drefnu ysgolion yn nalgylch Y Berwyn. Gofynnir i'r Cabinet benderfynu ar:
   (1) Y model a ffafrir ar gyfer ymgynghori'n statudol arno, a
   (2) Categori cyfreithiol y model hynny, (Cymunedol, Gwirfoddol a Reolir (VC), Gwirfoddol a Gynorthwyir (VA)).

ii. Cael caniatâd Cabinet y Cyngor i gynnal ymgynghoriad statudol ar ffedereiddio tair ysgol wledig dalgylch Y Berwyn, sef ysgolion Bro Tryweryn, Ffridd y Llyn ac OM Edwards.

Mae'r ddau fater yn gofyn am benderfyniadau ar wahân, gan fod y ddwy broses statudol sydd angen eu dilyn yn brosesau statudol penodol sy'n dilyn gweithdrefnau a phrosesau gwahanol.

1.2 Mae'r Cyngor wedi gweithredu Strategaeth '*Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd'* ers ei mabwysiadu yn Ebrill 2009. Yn ei gyfarfod 9 Hydref 2012, penderfynodd y Cabinet ar '*Gynllun Blaenoriaethau – Maes Trefniadaeth Addysg'*, a hwnnw wedi ei sylfaenu ar y strategaeth hon.

1.3 Yn unol â Strategaeth *Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd* cafwyd trafodaethau ynglŷn â darpariaeth addysg yn nalgylch Y Berwyn ers 2009.

1.4 Cyflwynwyd adroddiad gerbron y Cyngor Llawn ar Orffennaf 15, 2010 ynglŷn ag ad-drefnu ysgolion dalgylch Y Berwyn. Mae'r adroddiad yn gyd-destun i'r adroddiad yma a cheir copi yn y pecyn cefndirol. Mae copïau o bapurau eraill perthnasol ar safle we'r Cyngor www.gwynedd.gov.uk/trefniadaethysgolion a www.gwynedd.gov.uk/ycabinet.

1.5 Cynhaliwyd cyfnod o ymgynghori statudol rhwng 13 Rhagfyr 2010 a 4 Chwefror 2011.

1.6 Cyflwynwyd adroddiad pellach gerbron y Cyngor Llawn ar 12 Mai 2011, ac fe gytunwyd ar yr argymhellion canlynol:

i. cymeradwyo'r bwriad i gau Ysgol Bro Tegid, Ysgol Beuno Sant ac Ysgol Y Berwyn ar 31 Awst 2015
ii. cymeradwyo'r bwriad i sefydlu Ysgol Gymunedol ar safleoedd Ysgol Y Berwyn ac Ysgol Beuno Sant i dderbyn disgyblion rhwng oedran 3-19 fel rhan o'r bwriad o sefydlu Campws Dysgu Gydol Oes yn Y Bala, i agor ar 1 Medi 2015
iii. cymeradwyo cau Ysgol y Parc erbyn 31 Awst 2012, ac i ddarparu lle ar gyfer y disgyblion hynny yn Ysgol OM Edwards, Llanuwchllyn, gan wneud gwaith uwchraddio i Ysgol OM Edwards

1.7 Rhwng 2010 a 2012, bu newid yn nulliau Llywodraeth Cymru o gyllido prosiectau mawr, ac roedd yna ansicrwydd am argaeledd cyllid ar gyfer cyllido'r Campws Dysgu Gydol Oes yn Y Bala. Penderfynodd y Cyngor warantu'r cyllid ar gyfer gwneud gwelliannau yn Ysgol OM Edwards, ond nid aethpwyd ati i ad-drefnu yng ngweddill y dalgylch.

1.8 Fe gaeodd Ysgol Y Parc ar Awst 31 2013, ac fe wnaethpwyd gwelliannau i Ysgol OM Edwards erbyn Medi 2013.

1.9 Wedi cyfnod o oedi, cyflwynwyd adroddiad pellach gerbron y Cabinet ar 1 Ebrill 2014, ble y cytunwyd i:

i. Rhoi caniataid i ehangu'r gwaith i alluogi llunio ystod o fodelau fyddai'n cyfarch agweddau strategol, rheolaethol a/neu lywodraethol ar gyfer y dalgylch yn ei gyfanrwydd, gyda'r bwriad o gyflwyno argymhellion penodol ar gyfer ymgynghori statudol yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

ii. Rhoi awdurdod i gynnal asesiad er adnabod a mesur yr angen yn y dalgylch ar gyfer darpariaeth addysg o gategori a dynodiad penodol ac i gyfarch anghenion y broses o adnabod yr argymhellion fel y nodir yn i. uchod.

iii. Gan fod un o ysgolion y dalgylch yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru, (VA), dirprwyo'r hawl i'r Aelod Cabinet Addysg, Plant a Phobl Ifanc gynnal rhag-ymgynghoriad gyda'r Eglwys yng Nghymru yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013.

1.10 Yn dilyn hyn, ail-sefydlwyd y Panel Adolygu Dalgylch (PAD), ac fe gafwyd cyfarfod ar 6 Mai 2014 a 14 Ionawr 2015. Yn ystod y cyfnod yma cynhaliwyd 3 cyfarfod er mwyn trafod materion addysgiadol ac addysg gyda phenaethiaid ysgolion y dalgylch yn ogystal.

1.11 Trafododd y Panel ystod eang o dystiolaeth, gan gynnwys ystadegau'r gwahanol ysgolion, cefndir ariannol, a'r Rheoliadau newydd ddaeth i rym ar sefydlu ffederasiynau rhwng ysgolion.


1.12 Bu amrywiol drafodaethau rhwng Ebrill 2014 ac Ionawr 2015. Er bod Ysgol OM Edwards yn rhan o'r ad-drefnu blaenorol, bu'r ysgol yn rhan o'r ystyriaethau wrth ddatblygu gwahanol fodelau ar gyfer ystyriaeth bellach. Lluniwyd rhestr hir o opsiynau posib ar gyfer ad-drefnu ysgolion yn yr ardal oedd yn cynnwys amrywiadau o'r canlynol:

- Gwneud dim
- Ysgol(ion) Ardal
- Ysgol(ion) Ardal Aml-Safle
- Campws Gydol Oes yn Y Bala yn unig
- Campws Gydol Oes dalgylchol
- Cydweithio rhwng ysgolion
- Cau rhai ysgolion a throsglwyddo disgyblion i ysgolion cyfagos
- Ffedereiddio – rhai ysgolion neu holl ysgolion y dalgylch
- Ffederasiwn rhwng yr ysgolion gwledig a'r Campws Gydol Oes
- Ymddiriedolaeth Gydweithio rhwng ysgol Beuno Sant (ysgol VA) a'r ysgolion eraill
- Campws Dysgu Gydol Oes yn nhref y Bala, ac amrywiol ffyrdd o gydweithio/ffedereiddio gyda'r ysgolion gwledig

1.13 Cynhaliwyd y cyfarfod PAD diweddaraf ar 14 Ionawr 2015 ble cyflwynwyd gwaith cefndirol yn seiliedig ar y dalgylch cyfan. Roedd hyn yn cynnwys rhestr hir o fodelau, y ffordd ymlaen arfaethedig, (h.y. y cyfeiriad ar hyn o bryd), ac eglurhad o'r prosesau statudol.

1.14 Trwy raglen Llywodraeth Cymru - 'Rhaglen Ysgolion yr unfed Ganrif ar Hugain', mae swm o £9.27miliwn, (cyfraniad o £4.635m Llywodraeth Cymru, £4.635m Cyngor Gwynedd), wedi ei glustnodi ar gyfer dalgylch Y Berwyn. Bydd angen cyflwyno achos busnes cynhwysfawr mewn tri cham i ddenu'r arian. Mae cam cyntaf yr achos busnes wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, ond bu cryn herio ar gynaladwyedd yr ysgolion gwledig a'r ddarpariaeth ôl-16. Er bod Llywodraeth Cymru wedi ei argyhoeddi am y tro o'r angen i gadw'r ddarpariaeth wledig yn y dalgylch ynghyd a'r ddarpariaeth ôl-16, gall y bydd y materion yma'n cael eu codi unwaith eto wrth i gamau 2 a 3 yr achos busnes gael eu cyflwyno.

## 2. SEFYLLFA BRESENNOL DALGYLCH Y BERWYN




2.1 Mae dalgylch Y Berwyn yn cynnwys 6 ysgol. Ceir un ysgol uwchradd ar gyfer disgyblion 11-19, (Ysgol Y Berwyn), a 5 ysgol gynradd. Yr ysgolion cynradd yw Ysgol Beuno Sant ac Ysgol Bro Tegid, yn nhref Y Bala. Ceir hefyd dair ysgol gynradd wledig, sef Ysgol OM Edwards, Llanuwchllyn, Ysgol Bro Tryweryn, Frongoch, ac Ysgol Ffridd y Llyn yng Nghefnddwysarn. Ceir manylion pellach am yr ysgolion yn y Pecyn Ystadegol sy'n rhan o'r pecyn cefndirol ddanfonwyd at aelodau'r Cabinet gyda'r adroddiad hwn.

2.2 Mae'r ardal wedi ei blaenoriaethu ar gyfer adolygiad o'r ddarpariaeth addysgol gan fod nifer o heriau yn wynebu'r ddarpariaeth addysg:

- Mae niferoedd disgyblion yn y dalgylch wedi lleihau dros y chwarter canrif ddiwethaf. Mae niferoedd disgyblion felly'n isel, er yn gyson a sefydlog ar hyn o bryd yn y rhan fwyaf o ysgolion y dalgylch
- Mae'r gost fesul disgybl yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd y dalgylch ychydig yn uwch na'r cyfartaledd Sirol o £3,856, ac yn Ysgol Y Berwyn yn £5,174 o'i gymharu â'r cyfartaledd sirol uwchradd o £4,623
- Mae amrediad o fewn y dalgylch yn y gost fesul disgybl cynradd o £3,378 - £4,202
- Ceir dwy ysgol gynradd yn nhref Y Bala a'r ddwy wedi eu lleoli nepell o'i gilydd. Mae hyn yn ddefnydd aneffeithiol o adnoddau
- Mae'r tair ysgol yn nhref Y Bala gyda Phenaethiaid mewn gofal, neu'n cael cymorth gan benaethiaid yr ysgolion gwledig
- Anghysondeb yn ansawdd addysg y dalgylch, yn enwedig yn ysgolion y dref
- Nid yw adeiladau ysgolion Beuno Sant, Bro Tegid ac Ysgol Y Berwyn yn y cyflwr gorau nac yn addas ar gyfer dysgu yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae adeilad Ysgol Y Berwyn yn enwedig, mewn cyflwr gwael iawn, yr adeilad wedi dirywio'n sylweddol ac ôl-groniad gwariant cynnal a chadw o £1,233,000
- Mae gan ysgolion Beuno Sant 48% o lefydd gweigion ac Ysgol Y Berwyn 57% o lefydd gweigion. Mewn cyferbyniad a hyn, mae Ysgol Bro Tegid yn llawn a niferoedd y disgyblion yn fwy na'i chapasiti.
- Yr angen i sicrhau hyfywedd a chynaladwyedd y trefniadau addysgol yn y dalgylch ar gyfer y dyfodol

**3. YSTYRIAETHAU PERTHNASOL – DEWIS MODEL**

3.1 Trafodwyd nifer o fodelau cyn i'r rhestr hir gael ei greu. Yr athroniaeth y tu cefn i'r modelau oedd ystyried pob un o'r 6 ysgol yn y dalgylch, gan geisio ffyrdd fyddai'n gwella ac yn cynnal safon addysg yn y dalgylch.

3.2 Roedd y modelau'n cynnwys:

a. Modelau o gydweithio/ffedereiddio rhwng rhai neu holl ysgolion presennol heb gau ysgolion
b. Modelau o gydweithio/ffedereiddio rhwng ysgolion yn dilyn cau rhai ysgolion
c. Cau rhai ysgolion cynradd gan drosglwyddo disgyblion i ysgolion cyfagos heb fuddsoddiad cyfalaf na chydweithio rhwng yr ysgolion sy'n weddill
d. Cau rhai ysgolion cynradd gan drosglwyddo disgyblion i ysgolion cyfagos heb fuddsoddiad cyfalaf, a sefydlu cydweithio rhwng yr ysgolion sy'n weddill
e. Cau rhai ysgolion cynradd a sefydlu ysgol(ion) ardal yn dilyn buddsoddiad cyfalaf
f. Cau rhai ysgolion cynradd gwledig a sefydlu ysgol(ion) ardal aml-safle yn dilyn buddsoddiad cyfalaf
g. Sefydlu un ysgol i ddisgyblion cynradd y dalgylch cyfan ar un safle, safle ysgol bresennol neu safle newydd
h. Sefydlu un ysgol ddilynol 3-19 ar un safle i holl ddisgyblion y dalgylch
i. Sefydlu ysgol ddilynol 3-19 ar safle Ysgol Y Berwyn ar gyfer disgyblion cynradd tref Bala yn unig
j. Sefydlu ysgol ddilynol 3-19 ar fwy nag un safle
k. Sefydlu ysgol ddilynol 3 – 19 i'r dalgylch cyfan ar nifer o safleoedd

3.3 Crynodeb yw'r uchod, gan fod gan lawer o'r modelau a ystyriwyd amrywiadau a chyfuniadau gwahanol yn dibynnu ar ba ysgolion a safleoedd sydd yn cael eu dewis. Manylir ar y prif fodelau isod.

3.4 **Model Cydweithio Anffurfiol**

3.4.1. Mae gan gydweithio anffurfiol ei fanteision, ac mae'n digwydd i raddau yn barod yn y dalgylch.

3.4.2. Manteision y math hwn o fodel fyddai sicrhau fod darpariaeth addysg yn parhau ymhob safle ble darperir addysg ar hyn o bryd. Byddai hynny'n diogelu'r cymunedau gwledig. Byddai cyfle i rannu arbenigedd, adnoddau a rhannu arfer da.

3.4.3. Fodd bynnag, mae cydweithio anffurfiol yn ddibynnol i raddau helaeth ar ewyllys da ac os yn gweithredu rhwng nifer o ysgolion, ar agweddau a phersonoliaethau niferus. Gall hyn wneud y cydweithio yn fregus wrth i arweinwyr ysgolion y dalgylch newid. Tasg anodd yw cydweithio ar lefel strategol ddalgylchol yn llwyddiannus yn y tymor hir, gan y byddai angen cytundeb a chydweithrediad rhwng hyd at 6 o ysgolion, Penaethiaid a chyrff llywodraethol.

3.4.4. Anfanteision arall cydweithio yw na fyddai'n datrys y broblem o leihad mewn niferoedd disgyblion, y sefyllfa o niferoedd uchel o lefydd gweigion mewn ysgolion unigol, maint dosbarthiadau ac amrediad oedran mewn dosbarthiadau presennol, amser dysgu uchel benaethiaid nac ychwaith yn arwain at arbedion ariannol. Ni fyddai gwahaniaeth i'r amgylchedd ddysgu a byddai costau cynnal yr un nifer o adeiladau hen ac anaddas yn parhau.

3.5 **Model Ffedereiddio**

3.5.1. Mae ffederasiwn yn golygu trefniant cydweithio ffurfiol rhwng ysgolion. Mae ysgolion yn rhannu un corff llywodraethu, ond ar yr un pryd yn cadw eu statws cyfreithiol fel endidau ar wahân, eu dyraniad cyllidol, enw a gwisg ysgol, ac yn parhau i gael arolwg Estyn eu hunain. Golyga hyn fod ffederasiwn yn galluogi pob ysgol i gadw at ei chymeriad unigol ei hun, a hynny o fewn partneriaeth ffurfio gref. Mewn ardaloedd gwledig sydd â chymunedau gwledig ffyniannus, gall ffederasiwn gydbwyso'r angen i sicrhau hyfywedd yr ysgolion hyn ar gyfer y dyfodol, wrth warchod unigrwydd a hunaniaeth y cymunedau gwledig y maent yn eu gwasanaethu. Mae ardal Penllyn yn adnabyddus am y bwrlwm diwylliannol sy'n deillio ac yn perthyn i'w hamrywiol gymunedau

3.5.2. Bydd strwythur y drefn lywodraethol a rennir drwy gyfrwng ffederasiwn yn caniatáu i ysgolion:

- Gydweithio mewn ffordd effeithlon a chynaliadwy i godi safonau, a chynyddu cyfleoedd i ddisgyblion a staff
- Rhannu adnoddau, arbenigedd a chyfleusterau gan gynnig profiadau cymdeithasol ehangach i blant
- Ddefnyddio strwythur reoli mwy strategol
- Cryfhau a sicrhau cysondeb yn y cydweithio sy'n digwydd rhwng ysgolion ar hyn o bryd

3.5.3. Nid yw ffederasiwn yn dod ag arbedion ariannol sylweddol i Awdurdodau Lleol, ond gall ffederasiwn leddfu pwysau ariannol o fewn ysgolion oherwydd gellir rhannu adnoddau a'u lleoli ar draws y Ffederasiwn. Mewn cyfnod o doriadau i gyllidebau ysgolion, mae hyn yn ffactor all ddod yn gynyddol bwysig

3.5.4. Yn dilyn dod i rym Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014, nid yw'n bosibl ffedereiddio ysgolion sydd â statws elusennol, gyda rhai sydd â statws Cymunedol. Ni ellir felly sefydlu ffederasiwn rhwng ysgol statws Eglwysig ac ysgol statws Cymunedol

## 3.6 Model Ysgol Ardal

3.6.1. Diffinnir Ysgol Ardal fel ysgol sydd yn disodli ysgolion eraill gan greu un ysgol newydd ar un safle ar gyfer ardal eang ac felly un endid cyfreithiol i wasanaethu yn eu lle. Er enghraifft pe byddai Ysgol Ardal yn nalgylch Y Berwyn, mae'n debyg mai un Ysgol Gydol Oes 3-19 fyddai honno, wedi ei lleoli yng nghanol tref y Bala ac yn darparu addysg i'r holl ddalgylch. Byddai'r ysgolion presennol yn y dref a'r wlad yn cau.

3.6.2. Y model yma sy'n cynnig yr arbedion refeniw a gwariant cyfalaf mwyaf sylweddol, ond mae'r model yma hefyd yn gofyn am y buddsoddiad mwyaf yn y tymor byr. Byddai hefyd yn cysoni cost y disgybl mewn dalgylch, ac yn cael effaith ar faint ac amrediad oedran dosbarthiadau, gan olygu fod Pennaeth ac uwch-reolwyr yn medru blaenoriaethu eu hamser i arwain a rheoli yn hytrach na dysgu. Mae'r model yma hefyd yn lleihau llefydd gweigion.

3.6.3. Rhai anfanteision yw y gall disgyblion orfod teithio pellteroedd pellach i ysgol. Yn nalgylch Y Berwyn, gallasai hyn olygu taith o dros 45 munud i nifer o'r disgyblion o'u cartref i'r ysgol, gan gofio fod nifer o'r disgyblion yn bwy mewn cymunedau gwasgaredig gwledig, ble mae amseroedd teithio yn aml yn hirach na'r hyn y mae'r pellter yn ei awgrymu. Hefyd, mae nifer o ddisgyblion yn teithio i ddalgylch Y Berwyn o'r tu allan i'r dalgylch a'r Sir, o gymunedau Llangwm ac Edeirnion yn bennaf.

3.6.4. Yn ogystal, mae teithio sylweddol yn golygu costau cludiant uchel sydd yn lleihau'r arbedion refeniw, ac yn golygu fod arian yn cael ei wario ar adnodd nad sydd yn uniongyrchol arwain at wella ansawdd addysg. Mae hyn yn arbennig o wir mewn ardal mor wledig fel dalgylch Y Berwyn, sydd nid yn unig yn ddalgylch eang, ond yn ddalgylch ble mae nifer o ddisgyblion yn byw mewn cymunedau gwasgaredig, yn aml gryn bellter o'r ffordd fawr.

3.6.5. Mae'r model hwn hefyd yn cael effaith negyddol ar y cymunedau sy'n colli presenoldeb ysgol.

## 3.7 Model Ysgol Ardal Aml-Safle

3.7.1. Amrywiad o'r model Ysgol Ardal yw'r model yma. Mae'r ysgol yn un ysgol ac un endid cyfreithiol sy'n gwasanaethu ardal eang. Fodd bynnag, yn wahanol i ysgol ardal, mae ysgol ardal aml-safle yn rhoi darpariaeth addysgol ar nifer o safleoedd.

3.7.2. Budd y math yma o fodel yw'r gallu i ail-strwythuro'r drefniadaeth reolaethol, ond eto'n cadw presenoldeb addysg mewn mwy nag un gymuned. Mae'n fodel all weithio'n dda mewn ardaloedd gwledig iawn lle mae pellteroedd teithio hir nes cyrraedd ysgol amgen. Hefyd golyga nad yw safleoedd ysgolion bach yn cael eu gadael yn ynysig ond maent yn hytrach yn rhan o sefydliad addysgol mwy. Gellir felly wneud gwneud gwell defnydd o adnoddau e.e. un pennaeth ar gyfer mwy nag un safle, rhannu adnoddau a staff rhwng safleoedd a dod a disgyblion safleoedd at ei gilydd i gynnal gweithgareddau gyda niferoedd uwch o ddisgyblion. Mae'r model hefyd yn rhoi arbedion refeniw ac yn cadw presenoldeb safle ysgol mewn mwy o gymunedau.

3.7.3. Rhai anfanteision y model yma yw ei anallu i sicrhau fod maint ac amrediad dosbarthiadau rhai safleoedd addysgol yn newid er gwell. Nid yw'r model yn un sy'n rhoi'r arbedion refeniw uchaf posib (yn aml mae mwy o arbedion gydag Ysgol Ardal), ond mae yn gwneud gwell defnydd o

adnoddau ac yn rhesymoli cost y disgybl. Mae'r model hwn hefyd yn cael effaith negyddol ar y cymunedau sy'n colli presenoldeb, hunaniaeth a chymeriad unigryw ysgol. Gall hefyd arwain at wanhau'r berthynas rhwng ysgol a'r rhieni, yr ysgol a'i chymuned, perthynas sy'n aml yn greiddiol at sicrhau ysgol lwyddiannus. Byddai hyn yn arbennig o wir yn nalgylch Y Berwyn ble ceir ymdeimlad cryf o gymuned, gweithgareddau cymunedol a diwylliannol niferus a'r rheini yn cael eu cynnal yn gyfan gwbl naturiol drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg

3.8 **Model Ysgol Gydol Oes**

3.8.1. Yn yr achos yma, diffinnir Ysgol Gydol Oes fel ysgol i ddisgyblion gydag amrediad oedran 3-19 oed. Prif fantais y Model yma yw cael gwared â'r bwlch perfformiad sy'n aml yn digwydd wrth i blant drosglwyddo o'r oedran cynradd i'r oedran uwchradd. Gall Ysgol Gydol Oes fod ar un neu fwy o safleoedd.

3.8.2. Rhai manteision y model yw galluogi'r hyblygrwydd i wneud y defnydd mwyaf effeithlon o ran cyllideb ac adnoddau e.e. defnyddio arbenigeddau pwnc athrawon uwchradd i ddysgu pynciau arbenigol i ddisgyblion cynradd, neu ymestyn defnydd dulliau dysgu llythrennedd a rhifedd i'r sector uwchradd. Y nod byddai lleihau'r bwlch sydd yn bodoli mewn cyrhaeddiad disgyblion yn ystod y cyfnod trosiannol o'r cynradd i'r uwchradd (blwyddyn 6 i flwyddyn 7).

3.8.3. Gellir hefyd sicrhau cysondeb mewn dulliau addysgu, asesu a'r cyfleodd sydd ar gael i ddisgyblion, a chynllunio rhai agweddau cwricwlaidd e.e rhifedd a llythrennedd o safbwynt ysgol gyfan. Yn ogystal, medrir safoni polisïau a gweithdrefnau gan gynyddu effeithlonrwydd.

3.8.4. Ychydig o Ysgolion Gydol Oes sy'n bodoli yng Nghymru ar hyn o bryd (4 ohonynt ym Medi 2014), sydd yn golygu bod y dystiolaeth am eu llwyddiant yn gyfyngedig o ran nifer. Fodd bynnag mae'r model yma wedi dangos llwyddiannau, er enghraifft Ysgol Bro Pedr yn Llambed wedi dangos gwelliant clir yn nhermau perfformiad erbyn cyfnod o 2 flynedd ers ei hagor, a hynny yn y cyfnod oedran cynradd a'r uwchradd.

3.8.5. **Dyma'r model sy'n sylfaen greiddiol i'r model a ffafrir y gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo ar gyfer ymgynghori'n statudol arno. Manylir ar rinweddau'r Model yma yn rhan 5 o'r adroddiad hwn.**

3.9 **Model Ysgol Gydol Oes Ddalgylchol**

3.9.1. Amrywiad o'r Model Ysgol Gydol Oes yw'r Model yma. Y gwahaniaeth yw bod yr ysgol yn gwasanaethu'r holl ddalgylch. Gall hyn fod ar un neu nifer o safleoedd, ac mae'n golygu un pennaeth, un tîm staff, un corff llywodraethol ac un gyllideb ar gyfer y dalgylch.

3.9.2. Ni fyddai'r Model yma'n cadw hunaniaeth ysgolion gwledig a'r berthynas gref sy'n bodoli ar hyn o bryd rhwng yr ysgolion gwledig a'u cymunedau.

3.10 **Rhestr Hir Modelau Posib**

3.10.1. Crëwyd rhestr hir o opsiynau. Er bod yr achos dros newid wedi ei sefydlu, mae'r model 'Gwneud Dim' yn cael ei gynnwys at ddiben cymharu:

| | |
|---|---|
| **Model 1** | Gwneud dim. |
| **Model 2** | • Cau ysgolion y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant a chreu Campws Gydol Oes (CGO) ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn y Bala<br>• Yna creu cydbwyllgor dalgylchol rhwng y CGO a'r tair ysgol wledig, sef ysgolion OM |

| | |
|---|---|
| | Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn. |
| **Model 3** | • Cau ysgolion y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant a chreu CGO ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn y Bala.<br>• Cynllunio i ffedereiddio'r tair ysgol wledig, sef ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn gan greu cydbwyllgor dalgylchol rhwng y ffederasiwn a'r CGO. |
| **Model 4** | • Cau ysgolion y Berwyn a Bro Tegid a chreu CGO ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn y Bala.<br>• Sefydlu Ymddiriedolaeth Gydweithio Leol rhwng Ysgol Beuno Sant a'r CGO<br>• Ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn yn parhau fel ag y maent. |
| **Model 5** | • Cau ysgolion y Berwyn, Bro Tegid, Beuno Sant Bro Tegid, OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn a chreu CGO dalgylchol ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn y Bala |
| **Model 6** | • Cau ysgolion y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant a chreu CGO ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn y Bala<br>• Cynllunio i ffedereiddio'r tair ysgol wledig, sef ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn gyda'r CGO. |
| **Model 7** | • Cau ysgolion y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant a chreu CGO ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn y Bala<br>• Cau ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn a sefydlu Ysgol Ardal Aml-safle ar safleoedd presennol y dair ysgol wledig, sef ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn<br>• Cydweithio rhwng yr Ysgol Ardal Aml-safle 'r CGO. |
| **Model 8** | • Cau ysgolion y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant a chreu CGO ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn y Bala<br>• Cau ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn a sefydlu Ysgol Ardal Aml-safle ar safleoedd presennol y dair ysgol wledig, sef ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn<br>• Cynllunio i ffedereiddio'r CGO a'r Ysgol Ardal Aml-safle wledig. |

### 3.11 Gwerthusiad Opsiynau

3.11.1. Yn ystod y trafodaethau datblygwyd dogfen sy'n crynhoi prif fanteision ac anfanteision y modelau a drafodwyd. Gwerthuswyd yr opsiynau gwahanol a gellir gweld cymhariaeth bellach o'r modelau yn erbyn ffactorau yn y strategaeth *'Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd'*, ffactorau yn y Cod Trefniadaeth, gweledigaeth dalgylch Y Berwyn a ffactorau perthnasol eraill. Gellir gweld y gwerthusiad opsiynau llawn yn **Atodiad 1.**


## 4. Y CYFEIRIAD AR GYFER Y DALGYLCH

4.1 Y cyfeiriad awgrymir ar hyn o bryd ar gyfer y dalgylch yw **Model 3:**

**Model 3:**
**Sefydlu Campws Gydol Oes 3-19 yn Y Bala. Ffedereiddio ysgolion OM Edwards, Bro Tryweryn a Ffridd y Llyn. Cydbwyllgor dalgylchol rhwng y Campws Gydol Oes a'r tair ysgol wledig ffederedig**

4.2 Golyga hyn:

i. Gau ysgolion Bro Tegid, Beuno Sant ac Ysgol Y Berwyn yn nhref Y Bala, a sefydlu Campws Gydol Oes 3-19, (sef Ysgol Gydol Oes 3-19), ar safle Ysgol Y Berwyn.
ii. Ffedereiddio ysgolion gwledig y dalgylch gyda'i gilydd a sefydlu cydbwyllgor rhwng yr ysgolion gwledig a'r Campws Gydol Oes yn y dref.




4.3 Hwn yw'r opsiwn ffafredig ar ôl ystyried nifer o ffactorau, sydd yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:

- Ansawdd yr Addysg
- Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran o fewn dosbarthiadau
- Niferoedd disgyblion a llefydd gweigion
- Amgylchedd Ddysgu – ansawdd ac addasrwydd adeiladau

- Statws / Categori Ysgol
- Arweinyddiaeth a staffio
- Y Gymuned
- Yr Iaith Gymraeg
- Ardrawiad Cydraddoldeb
- Adnoddau Ariannol
- Ffactorau Daearyddol
- Y farn yn lleol

Ni fydd y Model yma'n cau unrhyw ysgol wledig, nac yn cael unrhyw effaith ar unrhyw un o'r cymunedau yn nalgylch Y Berwyn.

4.4 Er mwyn gwireddu'r Model hwn a'r weledigaeth ar gyfer y dalgylch, rhaid gweithredu dwy broses o ymgynghori statudol, a'r rhain yn ddwy broses ar wahân sy'n dilyn gweithdrefnau statudol penodol.

## 5. YSTYRIAETHAU SEFYDLU CAMPWS GYDOL OES 3 – 19 YN Y BALA

5.1 Un o'r prif yrwyr dros ad-drefnu addysg yw gwella ansawdd addysg a phrofiadau disgyblion.

5.2 Wrth ddefnyddio'r term Campws Gydol Oes, yna'r hyn sydd dan ystyriaeth yw Ysgol Gydol Oes 3-19, gyda rhai elfennau ar gyfer y gymuned, e.e. llyfrgell. Byddai sefydlu Campws Gydol Oes yn Y Bala yn cryfhau'r ddarpariaeth addysgol drefol. Mae rhai gwendidau ar hyn o bryd. Mae ysgolion Bro Tegid a Beuno Sant yn ddibynnol ar gymorth penaethiaid dwy o'r ysgolion gwledig ar hyn o bryd, ac nid yw hyn yn gynaliadwy. Bernir fod angen gwelliant yn safonau Cyfnodau Allweddol 3 a 4 Ysgol Y Berwyn a gosodwyd yr ysgol ym Mand 3 gan Lywodraeth Cymru yn 2013/14, ac mae hi wedi ei chategoreiddio yn ambr o dan system gategoreiddio ysgolion Llywodraeth Cymru 2015. Mae Ysgol Beuno Sant wedi ei chategoreiddio fel ysgol sydd angen gwelliant sylweddol gydag Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol dros gyfnod o 12 mis ers Ebrill 2014. Mae Beuno Sant hefyd yn y categori ambr, tra bo gweddill ysgolion cynradd y dalgylch unai yn felyn neu'n wyrdd.

5.3 Byddai sefydlu un ysgol 3-19 oed yn galluogi hyblygrwydd ar draws yr holl ystod oedran fel bod rhannu adnoddau, staff a chyfleusterau yn dod yn arfer safonol. Dyma rai o'r posibiliadau:

- Ethos cyffredin a gwerthoedd a rennir ar draws yr ysgol
- Cyfleodd ar gyfer dysgu ar draws oedrannau a rhannu gweithgareddau
- Cynllunio'r cwricwlwm mewn modd sy'n cynyddu cydlyniant rhwng yr oedran cynradd ac uwchradd
- Gellir trefnu'r cwricwlwm cynradd a'r amserlen ar draws yr holl ysgolion fel bod holl ddisgyblion o'r un oedran yn dysgu'r un pethau ar yr un pryd - byddai hyn yn sicrhau eu bod i gyd ar yr un lefel wrth fynd i mewn i flwyddyn 7 yn y safle uwchradd
- Gall staff cynradd o bob ysgol gyfarfod i drafod a rhannu arferion da a hefyd gefnogi, annog a dysgu oddi wrth ei gilydd
- Mwy o fynediad i ddisgyblion i ystod o adeiladau, cyfleusterau ac adnoddau dysgu arbenigol
- Gwell cysondeb yn y dulliau dysgu ac addysgu
- Byddai gwell parhad ym mhob agwedd ar y cwricwlwm gan ei fod yn cael ei raglennu ar draws y dalgylch, gan sicrhau'r un profiadau a chyfleoedd i bob disgybl
- Gwell cysondeb yn yr arddulliau dysgu ac addysgu

- Datblygu perthynas gref a rhannu arbenigedd rhwng adnoddau dysgu cynradd ac uwchradd
- Yn lleihau dyblygu dysgu rhwng Cyfnodau Allweddol 2 a 3
- Rheoli'r elfen gynradd a'r elfen uwchradd ar y cyd, a gweithredu system gyffredin o gofnodi ac olrhain cynnydd disgyblion
- Fel un endid gellir creu cysylltiadau cryfach gyda rhieni a'r gymuned leol
- Drwy gael system reolaethol unedig, gellir defnyddio adnoddau ariannol ac adnoddau dynol yn fwy effeithlon

5.4 Mae'r opsiwn yn parhau gyda darpariaeth ôl-16 yn y dalgylch. Mae'r ddarpariaeth ôl-16 yn cyfrannu at gynaliadwyedd yr ysgol, yn rhoi gwerth a budd ychwanegol i'r ysgol, y gymuned wledig a'r iaith Gymraeg.

5.5 Mae cytundeb mewn lle ar hyn o bryd rhwng Ysgol Y Berwyn a Choleg Meirion Dwyfor i gydweithio o ran y ddarpariaeth ôl-16. Mae cyfle i fyfyrwyr Coleg Meirion Dwyfor fynychu cyrsiau ôl-16 yn Ysgol Y Berwyn, a chyfle i ddisgyblion Ysgol Y Berwyn fynychu cyrsiau yn y Coleg. Gan mai cymharol newydd yw'r bartneriaeth, bydd cyfle i'r ddarpariaeth esblygu dros amser, a bydd darpariaeth fideo gynadledda yn unrhyw Gampws Gydol Oes newydd yn rhan bwysig o hyn.

5.6 **Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran o fewn dosbarthiadau**

5.6.1. Byddai cynnig model Campws Gydol Oes yn cysoni maint dosbarthiadau oedran cynradd disgyblion tref Y Bala, gan alluogi mwy o ddisgyblion i gael eu haddysgu mewn grwpiau o faint cyson.

5.6.2. Bydd pegynau amrediad oedran o fewn dosbarthiadau hefyd yn lleihau, sydd yn fodd o leddfu'r heriau a phroblemau addysgu a dysgu effeithiol pan fydd ystod oedran eang mewn un dosbarth.

5.7 **Niferoedd disgyblion a llefydd gweigion**

5.7.1. Mae niferoedd disgyblion yn ysgolion cynradd tref Y Bala wedi lleihau'n sylweddol ers 1980, gostyngiad o 48% a 43% yn ysgolion Beuno Sant ac Ysgol Y Berwyn rhwng 1980 a 2014. Mewn cyferbyniad, ac er gwaetha'r ffaith fod y tair ysgol wledig yn gymharol fach o ran maint, bu twf cyson ac nid ansylweddol o 20% yn Ysgol Bro Tryweryn, 25% yn Ysgol Ffridd y Llyn a 29% yn Ysgol OM Edwards rhwng 1980 a 2013. Dengys y tabl isod nifer y llefydd gweigion yn nalgylch Y Berwyn.

| Ysgol | Cost Llefydd Gweigion Medi 2014 | | |
|---|---|---|---|
| | Capasiti | Lefydd gweigion % a nifer | Cyfanswm cost Cynradd x £262 Uwchradd x £510 |
| Bro Tegid | 95 | 0 | **0** |
| Bro Tryweryn | 60 | 18%/11 | **£2,882** |
| Ffridd y Llyn | 71 | 10%/7 | **£1,834** |
| Beuno Sant | 89 | 48%/43 | **£11,266** |
| O.M. Edwards | 98 | 4%/4 | **£1,048** |
| **Cyfanswm Cynradd** | **413** | **16%/65** | **£17,030** |
| Y Berwyn | 730 | 57%/413 | **£210,630** |
| **Cyfanswm y Dalgylch** | **1,143** | **42%/478** | **£227,660** |

5.7.2. Fe welir fod nifer o lefydd gweigion yn nalgylch Y Berwyn, yn enwedig yn nhref Y Bala, yn Ysgol Y Berwyn ac Ysgol Beuno Sant – 413 o lefydd gweigion uwchradd a 43 o lefydd gweigion cynradd ym Medi 2013, gan wneud cyfanswm o 456 o lefydd gweigion yn nhref Y Bala.

5.7.3. Derbyniwyd gohebiaeth gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn Mai 2012 yn gofyn i Awdurdodau gyda mwy na 20% o lefydd gweigion yn eu hysgolion i amlinellu cynlluniau ganddynt i geisio lleihau'r llefydd gweigion. Derbyniwyd gohebiaeth bellach yn Rhagfyr 2014 yn ategu'r angen i'r Cyngor leihau llefydd gweigion. Mewn ymateb nododd y Cyngor y bwriad o geisio lleihau llefydd gweigion ar draws y Sir.

5.7.4. O wireddu'r cynnig byddai'r Campws Gydol Oes yn cael ei sefydlu gyda chapasiti priodol ar gyfer niferoedd disgyblion nawr ac i'r dyfodol. Ar hyn o bryd rhagwelir Campws Gydol Oes gyda chapasiti o tua 560 disgybl – 180 cynradd a 380 uwchradd.

5.7.5. Yn seiliedig ar ragamcanion presennol, byddai gweithredu'r Campws Gydol Oes ym Medi 2018 yn golygu lleihau llefydd gweigion y dalgylch o 42% i 13%. Mae hyn yn lleihad sylweddol.

5.8 **Amgylchedd ddysgu – ansawdd ac addasrwydd adeiladau**

5.8.1. Mae Rhaglen Ysgolion 21 Ganrif Llywodraeth Cymru yn nodi bod yr amgylchedd addysgu yn ffactor bwysig wrth ddarparu addysg. Mae Estyn hefyd o'r farn fod adeiladau dysgu o ansawdd ac amgylchedd ddysgu da yn medru gwella cyflawniad disgyblion. (Gwerthusiad Estyn o berfformiad ysgolion cyn ac wedi iddynt symud i adeiladau newydd neu eiddo wedi eu hadnewyddu 2007).

5.8.2. Yn ogystal, mae adeiladau newydd neu wedi eu hailwampio, yn golygu llai o wariant ar gynnal a chadw adeiladau ac ar ynni.

5.8.3. Nid yw holl adeiladau ysgolion dalgylch Y Berwyn yn y cyflwr ac addasrwydd gorau i ddysgu ac addysgu disgyblion yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae hyn yn arbennig o wir am Ysgol Y Berwyn.

5.8.4. Mae Ysgol Y Berwyn mewn cyflwr gwael iawn. Mae'r adeilad wedi esblygu dros gyfnod o amser, ac yn gyfuniad o adeiladau. Mae'r rhan fwyf o'r adeilad yn perthyn i'r 1960au, ac er yn fodern yn ei gyfnod, mae bellach wedi dyddio. Ceir darnau to fflat a choridorau hir tywyll heb olau naturiol Yn ogystal, mae'r ysgol mewn cyflwr gwael gyda rhannau o'r to fflat yn gollwng, a thystiolaeth o ymsuddo. Mae'r adeilad yn ddrud i'w wresogi ac yn anaddas i'w bwrpas gan ei fod wedi ei gynllunio ar gyfer 700 o blant.

5.8.5. Mae nifer o'r ystafelloedd yn anaddas ar gyfer dysgu, gan eu bod o'r maint anghywir, ac mae gan rai pileri sy'n rhwystro gweledigaeth athrawon o'r disgyblion. Mae hyn yn atal cyfathrebu a rhyngweithio effeithiol rhwng athro a disgybl. Mae nifer o stafelloedd yn rhai anhyblyg ac nid oes coridorau addas i fynd o un ystafell i'r llall heb darfu ar wersi eraill. Mae'r fynedfa i'r safle yn wael ac mae'r Llyfrgell gyhoeddus wedi ei lleoli yng nghanol yr ysgol bresennol.

5.8.6. Mae ysgolion Bro Tegid a Beuno Sant yn ysgolion Fictoraidd, ac er mewn cyflwr gweddol, nid yw eu cynllun Fictoraidd yn addas ar gyfer dulliau addysgu modern. Ceir nifer o ystafelloedd nad sydd o'r maint addas, a chynllun sy'n amharu ar gylchrediad disgyblion a'u hymwneud a'i gilydd. Mae'r coridorau yn dywyll a chul, a'r adeiladau yn anodd eu gwresogi.

5.8.7. Yn ogystal, does gan Ysgol Beuno Sant ddim cae chwarae, ac mae'r maes chwarae yn gyfyngedig o ran maint. Er bod maes chwarae gwair ym Mro Tegid, mae'n gyfyng o ran maint gyda chanran

uchel ohono yn cael ei ddefnyddio ar gyfer parcio ceir y staff, gan nad oes cyfleusterau parcio gan yr ysgol.

5.8.8. Mae'r ddau safle'n aneffeithiol i'w rhedeg, ac o faint amhriodol, gydag Ysgol Bro Tegid yn rhy fach ac Ysgol Beuno Sant yn rhy fawr ar gyfer niferoedd y disgyblion.

5.8.9. Mae ysgolion Bro Tryweryn a Ffridd y Llyn yn ysgolion a gafodd eu hadeiladu yn 1970 a 1978, ac nid oes ganddynt gynllun Fictoraidd fel Ysgolion Bro Tegid a Beuno Sant. Yn ogystal mae gan y ddwy ysgol gyfleusterau parcio digonol, a meysydd a chaeau chwarae o faint derbyniol. Er nad yn ysgolion newydd, does gan yr un o'r ddwy unrhyw ddiffygion addasrwydd nac angen unrhyw waith cynnal a chadw mawr i'w gwneud iddynt.

5.8.10. Cafodd Ysgol OM Edwards ei hymestyn a'i huwchraddio yn 2013 fel rhan o'r buddsoddiad sydd eisoes wedi cymryd lle yn y dalgylch.

5.9 **Arweinyddiaeth a Staffio**

5.9.1. Mae sefyllfa staffio bresennol tref Y Bala angen sylw er mwyn sicrhau datrysiad tymor hir. Ar hyn o bryd mae Pennaeth Bro Tryweryn yn Bennaeth mewn gofal ar Ysgol Bro Tegid. Mae Pennaeth Ffridd y Llyn hefyd yn bennaeth mewn gofal ar Ysgol Beuno Sant. Er bod y trefniant yma yn gynaliadwy yn y tymor byr, a'i bod yn beth da rhannu arbenigedd a sgiliau arweinyddol y ddau bennaeth gwledig er budd disgyblion y dref, nid yw'r trefniant yma'n gynaliadwy yn y tymor hir, gan ei fod yn dargyfeirio amser ac adnoddau o'r ysgolion gwledig.

5.9.2. Gallai'r Campws Gydol Oes ddarparu nifer o gyfleoedd newydd yn deillio o strwythur rheoli ac arweinyddiaeth fwy arloesol. Bydd cyfuno holl adnoddau'r ardal dan un ysgol ac un strwythur staffio yn cynnig llawer o bosibiliadau newydd.

5.9.3. Bydd union strwythur staffio'r ysgol i'w drafod ymhellach ac yn fater o benderfyniad y byddai angen sylw Corff Llywodraethol Cysgodol unrhyw Gampws Gydol Oes. Bydd yr ysgol yn endid newydd, a bydd gofyn felly sefydlu Corff Llywodraethu Cysgodol newydd ynghyd ag offeryn llywodraethu, gan ddilyn canllawiau a rheoliadau cyfredol. Bydd angen i'r Corff Llywodraethu cysgodol newydd benodi'r Pennaeth ac yna gweddill staff yr ysgol.

5.9.4. Bydd sefydlu Campws Gydol Oes yn rhoi cyfleoedd gyrfa i staff addysgu ac arall. Ar hyn o bryd, mae gofyn i nifer o'r penaethiaid addysgu dosbarth am gyfran uchel o'u hamser, sy'n lleihau'r amser sydd ar gael iddynt arwain a rheoli'r ysgolion. Mewn ysgol fwy, bydd gwell cyfle i ryddhau arweinwyr ysgol (yr uwch dim rheoli) o'u hamser addysgu a dysgu, er mwyn ffocysu yn fwy ar yr ochr arweinyddiaeth a rheolaethol er mwyn sicrhau gwelliant parhaus yr ysgol.

5.9.5. Yn ogystal, bydd cyfleoedd i staff addysgu rannu eu harbenigedd gyda nifer fwy o ddisgyblion gan weld buddion o addysgu amrediad llai o ran ystod oedran disgyblion mewn dosbarthiadau. Hefyd bydd cyfleoedd cyffrous i staff cael datblygu gyrfa mewn sefydliad newydd.

5.9.6. Mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod pwysigrwydd arweiniad cryf mewn ysgol fel ffordd o gynnal a gwella safonau. Mae'r camau canlynol ar waith er mwyn sicrhau arweinyddiaeth gref yn ysgolion Gwynedd ar gyfer y dyfodol:

- GwE yn hyfforddi un uwch-reolwr o bob ysgol uwchradd i ddatblygu eu sgiliau arwain personol, a hefyd i ddatblygu rheolwyr canol eu hysgolion
- Ysgolion llwyddiannus yn rhannu arfer dda a chynnal dyddiadau Datblygu Arweinyddiaeth i reolwyr gweddill yr ysgolion

- Cynlluniau ysgol i ysgol yn sicrhau fod arweinwyr ysgolion yn cydweithio ac yn datblygu arbenigedd arweinyddol
- Annog darpar arweinwyr i ennill y cymhwyster CPCP
- Cynllun mentora Penaethiaid
- Cynllun peilot Arweinydd Strategol dalgylchol ar waith ar waith er mwyn hybu a datblygu arweinyddiaeth strategol yng Ngwynedd

5.10 **Adnoddau Ariannol**

5.10.1. Mae'r gwariant yn ôl y disgybl yn amrywio'n fawr o ysgol i ysgol. Oherwydd yr hinsawdd ariannol anodd sy'n bodoli ar hyn o bryd, mae'n gwneud synnwyr defnyddio adnoddau addysgol mor effeithiol ag sy'n bosibl.

5.10.2. Yng nghyd-destun rheoli asedau'n effeithiol, mae'n gwneud synnwyr fod gan Wynedd rwydwaith o ysgolion sy'n addas i natur y boblogaeth, ac mewn lleoliadau addas ar draws y Sir, ac ar yr un pryd yn darparu addysg sy'n cydweddu ac yn parchu anghenion cymdeithasol ac economaidd yr ardal, a'i natur wledig

5.10.3. Yn 2014/15, dyrannwyd £1,310,766 i ysgolion cynradd y dalgylch. Mae'r swm yma yn £3,764 y disgybl ar gyfartaledd, sy'n agos i gyfartaledd cost y disgybl Gwynedd o £3,856.

5.10.4. Yn 2014/15, roedd gan Ysgol Y Berwyn gost y disgybl o £5,174 sydd uwchlaw cyfartaledd y Sir o £4,623.

5.10.5. Wrth sefydlu Campws Gydol Oes amcangyfrifir y gall y cynllun arwain at arbedion refeniw o tua £62,938 gydag oddeutu £23,000 o arbedion effeithlonrwydd pellach yn bosibl drwy ryddhau arian cynnal a chadw a chostau rheolaethol i'w hail ddefnyddio o fewn y gyllideb. Golyga hyn y gall y cynllun arwain at dros £85,000 o arbedion yn ei gyfanrwydd. Cofier hefyd bod arbedion o £66,000 wedi eu gwneud yn sgil yr ad-drefnu blaenorol yn y dalgylch.

5.10.6. Bydd arbedion tybiannol hefyd o thua £227,660 yn flynyddol, gan gymryd i ystyriaeth bod Llywodraeth Cymru yn cyfrifo cost llefydd gwag cynradd yn £262 ac uwchradd yn £510.

5.10.7. Rhaid cydnabod bod trefniadau cyfrifo cenedlaethol NNDR (treth adeilad) yn arwain at gynnydd yn dilyn buddsoddiad cyfalaf, ond gyda'r gronfa NNDR yn cael ei ddosbarthu yn ôl i awdurdodau gellid dadlau na ddylid ystyried y mater yma wrth adnabod arbedion refeniw

5.10.8. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo mewn egwyddor gyfrannu 50% tuag at y swm o £9.27 miliwn y bwriedir ei fuddsoddi fel rhan o'r bwriad i sefydlu Campws Gydol Oes, ac mae hyn yn ddarostyngedig i gwblhau achos fusnes llwyddiannus.

5.11 **Ffactorau Daearyddol**

5.11.1. Wrth sefydlu Campws Gydol Oes yn nhref Y Bala, ni ragwelir bydd angen i unrhyw ddisgybl teithio pellter afresymol i gyrraedd safle addysgol, yn unol â'r strategaeth.

5.11.2. Byddai cludiant yn cael ei ddarparu yn unol â Pholisi Cludiant ysgolion y Sir, ond oherwydd nad oes newid yn yr ysgolion cynradd, a bod ysgolion tref Y Bala y bwriedir eu cau er mwyn sefydlu Campws Gydol Oes, ni ragwelir unrhyw newid i'r trefniadau teithio presennol.

## 6. MATERION ERAILL SYDD ANGEN YSTYRIAETH OS YN SEFYDLU CAMPWS GYDOL OES

6.1 **Categori Cyfreithiol**

6.1.1. Wrth ddatblygu'r cynnig yma rhaid ystyried categori cyfreithiol unrhyw fodel newydd. Wrth sefydlu Ysgol neu Gampws Gydol Oes yn nhref y Bala - mae angen penderfynu ar gategori cyfreithiol y sefydliad. Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, diffinnir ysgolion fel rhai;

- Cymuned
- Gwirfoddol a Reolir (VC) gyda dynodiad crefyddol (Eglwys yng Nghymru)
- Gwirfoddol a Gynorthwyir (VA) gyda dynodiad crefyddol (Eglwys yng Nghymru)

6.1.2. Mae'r Cyngor a'r Eglwys yng Nghymru yn gyd-ddarparwyr addysg yn nalgylch y Berwyn. Mae Ysgol Beuno Sant yn Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir (VA) gyda chymeriad crefyddol (Eglwys yng Nghymru). Mae Ysgol Y Berwyn, Ysgol Bro Tegid, Ysgol OM Edwards, Ysgol Bro Tryweryn ac Ysgol Ffridd y Llyn, fel y rhelyw o ysgolion Gwynedd yn ysgolion Cymunedol. Mae natur a chymeriad crefyddol ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir (VA) yn dylanwadu ar;

- Gymeriad yr Ysgol
- Aelodaeth y corff llywodraethol
- Perchnogaeth y safle

6.1.3. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gwahaniaethau rhwng ysgolion cymunedol, ysgolion VA a VC. Fe welir fod y gwahaniaeth rhwng y categori cymunedol a VC yn gymharol fychan. Mae'r gwahaniaeth rhwng categori VA yn dipyn mwy arwyddocaol.

| | **Categori Cymuned** | **Categori Eglwysig (Ysgol wirfoddol a reolir) (VC)** | | **Categori Eglwysig (Ysgol wirfoddol a gynorthwyir) (VA)** |
|---|---|---|---|---|
| **Perchnogaeth tir ac adeiladau'r ysgol** | Awdurdod Lleol | Yr Eglwys yn berchen ar adeilad yr ysgol a'r Awdurdod Lleol yn berchen ar y caeau chwarae | | Yr Eglwys yn berchen ar adeilad yr ysgol, a'r Awdurdod Lleol yn berchen ar y caeau chwarae |
| **Cyfrifoldeb am gyllido** | Awdurdod Lleol | Awdurdod Lleol | | Awdurdod Lleol yn cyllido'r costau rhedeg 100%. Awdurdod Lleol yn cyllido 85% o'r gwaith cyfalaf, yr Eglwys yn cyllido'r gweddill |
| **Cyfrifoldeb am gyflogi staff a phenodi** | Awdurdod Lleol | Awdurdod Lleol | | Yr Eglwys |
| **Polisi Mynediad** | Awdurdod Lleol | Awdurdod Lleol | | Corff Llywodraethol |
| **Cyfansoddiad y Corff Llywodraethu** | Cynrychiolaeth rhieni, Awdurdod Addysg, Athrawon, Staff, Cymunedol a Chyngor Cymuned | Llywodraethwyr Eglwysig yn y lleiafrif | | Llywodraethwyr Eglwysig yn y mwyafrif |
| **Cydaddoli** | Bodloni gofynion deddfwriaethol ar gyfer cydaddoli yn feunyddiol. Y weithred o addoli o natur Gristnogol yn gyfan gwbl neu yn bennaf | Bodloni gofynion deddfwriaethol ar gyfer cydaddoli yn feunyddiol. Y weithred o addoli o natur Gristnogol yn gyfan gwbl neu'n bennaf | | Bodloni gofynion deddfwriaethol ar gyfer cydaddoli yn feunyddiol. Bydd yr addoliad o natur Gristnogol naill ai yn gyfan neu yn rhannol |
| **Cwricwlwm ac Addysg Grefyddol** | Addysg Grefyddol yn faes o fewn cwricwlwm yr ysgol<br><br>Maes llafur addysg grefyddol y cytunir arno yn lleol trwy CYSAG | Bydd gwerthoedd a moeseg Gristnogol yn rhan bwysig o weithrediad yr ysgol, ond yn ddibynnol i raddau helaeth ar arweiniad y Pennaeth a'r Llywodraethwyr<br>Addysg Grefyddol yn cael ei ddysgu yn ôl y maes llafur y cytunir arno yn | | Yr ysgol yn gyfrifol am Addysg Grefyddol sydd o gymeriad enwadol.<br><br>Bydd gwerthoedd a moeseg Gristnogol yn ymdreiddio drwy weithrediad ac ethos yr ysgol ac yn rhan bwysig o fywyd yr ysgol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | lleol drwy CYSAG | | |
| **Arolygiadau** | Arolygiad gan Estyn yn unig | Arolygiad gan Estyn. Y Corff Llywodraethol yn gyfrifol am arolygu cymeriad crefyddol ac addoli'r ysgol. | | Arolygiad gan Estyn. Y Corff Llywodraethol yn gyfrifol am arolygu cymeriad crefyddol ac addoli'r ysgol. |

## 6.2 Ysgolion eraill yr Eglwys yng Nghymru yng Ngwynedd

6.2.1. Mae'n bwysig bod y Cabinet yn ystyried cyd-destun ehangach y ddarpariaeth. Isod ceir manylion holl ysgolion yr Eglwys yng Nghymru eraill o fewn y Sir. Mae Beuno Sant yn ysgol VA (gwirfoddol a gynorthwyir) tra bod holl ysgolion eraill yn VC (gwirfoddol a reolir):

| Ysgol | Pellter o'r Bala | Amrediad Oedran | Niferoedd disgyblion Medi 2013 | Capasiti | Llefydd Gweigion | Rhagamcanion 2014 Niferoedd disgyblion | 2014 Llefydd Gweigion | 2015 Niferoedd disgyblion | 2015 Llefydd Gweigion | 2016 Niferoedd disgyblion | 2016 Llefydd Gweigion |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pont y Gôf | 52.2 | 3 - 11 | 117 | 122 | 5 (4%) | 113 | 9 (8%) | 106 | 16 (14%) | 96 | 26 (22%) |
| Maesincla | 49.2 | 3 - 11 | 309 | 360 | 51 (14%) | 324 | 36 (10%) | 336 | 24 (7%) | 340 | 20 (6%) |
| Y Faenol | 52.3 | 3 - 11 | 261 | 232 | 0 | 262 | 0 | 264 | 0 | 245 | 0 |
| Foelgron | 48.9 | 3 - 11 | 30 | 60 | 30 (50%) | 35 | 25 (42%) | 36 | 24 (42%) | 38 | 22 (37%) |
| Llandygai | 47.6 | 3 - 11 | 158 | 176 | 18 (10%) | 163 | 13 (7%) | 160 | 16 (9%) | 155 | 21 (12%) |
| Llandwrog | 45.6 | 3 - 11 | 68 | 86 | 18 (21%) | 55 | 31 (36%) | 53 | 33 (38%) | 52 | 34 (40%) |
| Llanystumdwy | 36.5 | 3 - 11 | 40 | 53 | 13 (35%) | 36 | 17 (32%) | 34 | 19 (36%) | 36 | 17 (32%) |
| Tregarth | 45.3 | 3 - 11 | 140 | 181 | 41 (23%) | 136 | 45 (25%) | 134 | 47 (26%) | 134 | 47 (26%) |
| Cae Top | 50.7 | 3 - 11 | 240 | 254 | 14 (6%) | 240 | 14 (6%) | 240 | 14 (6%) | 240 | 14 (6%) |
| Machreth | 17.0 | 3 - 11 | 16 | 46 | 30 (65%) | 12 | 34 (74%) | 9 | 37 (80%) | 8 | 38 (83%) |
| Cynradd Dolgellau | 18.0 | 3-11 | 147 | 213 | 66 (31%) | 147 | 66 (31%) | 143 | 70 (33%) | 137 | 76 (36%) |
| Beuno Sant | 0.0 | 3-11 | 53 | 89 | 36 (40%) | 53 | 36 (40%) | 59 | 30 (34%) | 57 | 32 (36%) |

## 6.3 Yr angen am wahanol fathau o ysgolion

6.3.1. Er mwyn deall y farn ynglŷn â'r angen am addysg o wahanol gategorïau yn nalgylch Y Berwyn, cynhaliwyd asesiad. Gwnaed hyn drwy ddosbarthu holiadur i rieni disgyblion ym mhob un o'r 6 ysgol yn nalgylch Y Berwyn. Dychwelwyd 160 o holiaduron. Ceir copi o'r asesiad yn **Atodiad 3** o'r adroddiad hwn.

6.3.2. Rhai pwyntiau allweddol i'w nodi yw'r ffaith mai ansawdd yr addysg oedd y ffactor pwysicaf i rieni wrth iddynt ddewis ysgol ar gyfer eu plentyn - mae hyn yn glir gyda 79% o'r ymatebwyr yn dweud mai hwn oedd y ffactor pwysicaf mewn ysgol. Nid oedd barn o ran categori'r ysgol naill ffordd neu'r llall. Cadarnhawyd mai materion addysgol – ansawdd, perthynas dda gyda'r ysgol a safon yr adnoddau a'r amgylchedd ddysgu yw'r prif ffactorau a ystyrir yn bwysig mewn ysgol.

## 6.4 Rhag-ymgynghori gyda'r Eglwys yng Nghymru

6.4.1. Mae'r Cyngor wedi cynnal trafodaethau cyson gyda chynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru ers cychwyn ad-drefnu ysgolion yn y dalgylch. Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013) mae'n ofynnol i'r Awdurdod gynnal cyfnod o rag-ymgynghori gyda'r Eglwys yng Nghymru. Cynhaliwyd y cyfnod yma rhwng 15 Rhagfyr a 19 Ionawr 2015.

6.4.2. Derbyniwyd ymateb yr Eglwys yng Nghymru yn dilyn y cyfnod rhag-ymgynghori drwy gyfrwng llythyr dyddiedig 19 Ionawr 2015.

6.4.3. Dyma farn yr Eglwys:

i. Ar ôl ystyried y dewisiadau yn ofalus, mae'r Eglwys yng Nghymru yn cytuno mai sefydlu Campws Dysgu Gydol Oes 3-19 oed yn nhref Y Bala, drwy gau Ysgolion Bro Tegid, Beuno Sant ac Ysgol Y Berwyn yw'r Model sydd fwyaf priodol i'w ystyried a chynnal ymgynghoriad statudol arno.


ii. Mae'r Eglwys o'r farn y dylai'r Campws Gydol Oes fod yn un gyda statws gwirfoddol a reolir (VC) neu wirfoddol a gynorthwyir (VA).

6.4.4. Gellir gweld yr ymateb yn llawn yn llythyr yr Eglwys dyddiedig 19 Ionawr sydd wedi ei atodi yn **Atodiad 2.**

6.5 **Ffactorau i'w hystyried wrth benderfynu ar y categori cyfreithiol**

6.5.1. Wrth ystyried statws y ddarpariaeth arfaethedig, cyd-destun perthnasol yw'r ad-drefnu sy'n digwydd ar hyn o bryd yn nalgylch cyfagos Y Gader. Ar 13 Ionawr 2015, penderfynodd Cabinet Cyngor Gwynedd roi caniatâd i gyhoeddi Rhybuddion Statudol fydd yn arwain at sefydlu Ysgol Dalgylch Dilynol 3-16 oed gyda statws cymunedol. Golyga hyn golli'r ddarpariaeth Eglwysig bresennol yn y dalgylch - yn Ysgol Gynradd Dolgellau (VC) ac Ysgol Gynradd Machreth (VC), (cyfanswm o 163 o ddisgyblion).

6.5.2. Yr ysgol Eglwys yng Nghymru agosaf i dref Y Bala yng Ngwynedd yw Ysgol Llanystumdwy (VC). Dengys y map isod leoliad ysgolion yr Eglwys yng Nghymru agosaf i Ysgol Beuno Sant yn siroedd cyfagos Conwy a Dinbych.




6.5.3. Byddai statws VC ar y Campws Gydol Oes yn golygu y byddai gan yr Eglwys yng Nghymru gynrychiolaeth ar y Corff Llywodraethu, a debyg, gan fod un o'r ysgolion ystyrir yn Ysgol Eglwysig y byddai hyn yn briodol beth bynnag. Felly, pe byddai'r Campws Gydol Oes yn ysgol gyda statws VC, byddai'r corff llywodraethol yn cynnwys mwyafrif o lywodraethwyr lleyg fel y mwyafrif o ysgolion y Sir.

6.5.4. Byddai statws VC yn golygu mai'r Eglwys fyddai berchen adeilad yr ysgol, a'r Awdurdod Lleol y caeau chwarae. Fodd bynnag, ceir darpariaethau statudol fyddai'n trosglwyddo perchnogaeth yr adeilad yn ôl o'r Eglwys i'r Awdurdod Lleol pe byddai terfyn ar y ddarpariaeth Eglwysig.

6.5.5. Felly, mae nifer o ffactorau i'w hystyried, sef:
- y gyd-ddarpariaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd yn y dalgylch
- y penderfyniad i ddileu'r gyd-ddarpariaeth yn nalgylch cyfagos Y Gader

- pellteroedd teithio
- safbwynt yr Eglwys yn dilyn rhag-ymgynghoriad
- tebygrwydd categorïau cymunedol a VC
- y farn mai ansawdd yr addysg a'r adnoddau sydd ffactorau pwysicaf mewn ysgol yn ôl yr asesiad

6.5.6. Ystyrir cyd-destun ehangach penderfyniadau eraill sydd yn mynd i effeithio ar y cyd-ddarpariaeth yn ne'r Sir. Mae cyfle yn y fan yma i barhau â'r cydweithio drwy osod statws VC ar y Campws Gydol Oes. Er y byddai rhinweddau statws VC y ddarpariaeth yn wahanol i statws y ddarpariaeth VA presennol, byddai yn fodd o barhau'r gyd-ddarpariaeth. Argymhellir felly ymgynghori i sefydlu Campws Gydol Oes gyda statws VC. Bydd yr ysgolion gwledig yn parhau efo statws Cymunedol.

6.6 **Ystyriaethau Staffio**

6.6.1. Petai cymeradwyaeth i'r cynnig byddai goblygiadau staffio allai arwain at ansicrwydd a diswyddiadau i rai o aelodau staff ysgolion Bro Tegid, Beuno Sant ac Ysgol Y Berwyn. Bydd staff a chynrychiolwyr yr Undebau yn cael eu cynnwys fel rhan o unrhyw ymgynghoriad statudol. Mae Cyngor Gwynedd wedi datblygu polisi staffio manwl, ar y cyd â'r Undebau Llafur a phenaethiaid. Bydd cyfathrebu'n glir ac agored yn chwarae rhan greiddiol mewn gweithredu unrhyw gynigion.

6.6.2. Petai'r cynnig yn cyrraedd y pwynt lle bydd ysgol yn cael ei sefydlu, bydd disgwyl i'r Corff Llywodraethol Cysgodol benodi staff ar gyfer yr ysgol newydd. Bydd Gwasanaeth Personél ag Addysg y Cyngor ar gael i roi cymorth a chyngor i'r Corff Llywodraethu a'r staff ynglŷn â'r broses.

6.7 **Creu Campws Gydol Oes**

6.7.1. Er mwyn sefydlu'r Campws Gydol Oes ystyriwyd oblygiadau cyfreithiol a chyfansoddiadol o wneud hynny. Rhaid bydd cau'r ysgolion dan sylw (Bro Tegid, Beuno Sant ac Ysgol Y Berwyn), ac agor Campws Gydol Oes ar safle presennol Ysgol Y Berwyn.

6.7.2. Eglurwyd eisoes oblygiadau sefydlu endid un ysgol o ran:
- Arweinyddiaeth (un Pennaeth)
- Rheolaeth lywodraethol (un corff llywodraethol)
- Cyllidebol (un gyllideb)

6.7.3. O greu'r Campws Gydol Oes byddai angen sefydlu Corff Llywodraethu Cysgodol, cyfansoddiad yr ysgol a phenodi staff. Mater i'r Corff Llywodraethu Cysgodol fydd y strwythur staffio.

6.7.4. Wrth weithredu'r cynnig yma bydd dalgylchoedd yr ysgolion presennol yn cael eu haddasu. Defnyddir dalgylchoedd er mwyn adnabod ble mae'r ysgol agosaf i rieni/plant yn ddibynnol ar ble maent yn byw. Dyma sut mae'n bosib gwireddu Polisi Cludiant a Mynediad yr Awdurdod.

6.7.5. Fodd bynnag, oherwydd mai cau dau safle yng nghanol tref Y Bala yw'r bwriad, a symud y ddarpariaeth addysgol i safle Ysgol Y Berwyn, yna ni ragwelir unrhyw newid i'r trefniadau cludiant presennol, ac ni ragwelir effaith ar Bolisi Mynediad yr Awdurdod.

## 7. YSTYRIAETHAU SEFYDLU FFEDEREIDDIO'R YSGOLION GWLEDIG A SEFYDLU CYDBWYLLGOR

7.1 Wrth gynnal trafodaethau a gwneud gwaith ar opsiynau a modelau posibl yn y dalgylch, daeth yn amlwg na fyddai cau'r ysgolion gwledig yn cyfrannu at wella addysg a phrofiadau disgyblion yn y

dalgylch. Fodd bynnag, daeth hi'n amlwg hefyd na fyddai creu Campws Gydol Oes heb roi ystyriaeth ar yr un pryd i ddyfodol y ddarpariaeth addysgol wledig yn synhwyrol.

7.2 Mae safon addysg yr ysgolion gwledig ymhlith y gorau yng Ngwynedd. Yn gymharol ddiweddar, cafodd ysgolion OM Edwards, Bro Tryweryn a Ffridd y Llyn arolygiad da neu ragorol gan Estyn. Er bod rhagolygon niferoedd disgyblion yr ysgolion yma'n gyson, cymharol fach yw maint rhai o'r ysgolion.

7.3 Fel rhan o gynllunio strategol, mae'n rhesymol fod Cyngor Gwynedd yn ystyried ffedereiddio fel opsiwn ar gyfer darparu ysgolion effeithiol mewn cymunedau. Gyda buddsoddiad o £9.27m yn y dref, mae'n synhwyrol fod Y Cyngor yn rhoi ystyriaeth ar sut y gall plant yr ysgolion gwledig elwa o'r buddsoddiad yn y dref. Yn ogystal, yn ystod trafodaethau efo Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau'r buddsoddiad yn y dalgylch, daeth hi'n eglur na fyddai Llywodraeth Cymru yn fodlon cyfrannu heb fod yr ysgolion gwledig hefyd yn cael budd ac yn medru manteisio ar y buddsoddiad.

7.4 Un ffordd o gryfhau'r ddarpariaeth wledig a sicrhau fod y disgyblion gwledig yn cael budd o'r Campws Gydol Oes yw drwy ffedreiddio'r ysgolion gwledig a sefydlu cydbwyllgor rhyngddynt a'r Campws yn y dref.

7.5 Yn dilyn Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014 ddod i rym, nid yw'n bosibl ffedereiddio ysgol Eglwysig gydag ysgol nad sydd gyda statws Eglwysig, boed hynny yn statws VA neu VC. Felly, os bydd gan unrhyw Gampws Gydol Oes statws VC, ni ellir ffedereiddio'r tair ysgol wledig yn uniongyrchol gyda'r Campws Gydol Oes.

7.6 **Pam ffedereiddio?**

7.6.1. Nid yn unig gall ffedereiddio'r ysgolion gwledig gryfhau'r berthynas strategol rhwng yr ysgolion gwledig a'r Campws Gydol Oes, mae yna resymau dilys eraill dros ffedereiddio ac mae'r rhain yn cynnwys:

- Sicrhau hyfywedd yr ysgolion a'r cymunedau gwledig yn y dalgylch
- Cryfhau a sicrhau cysondeb yn y cydweithio sy'n digwydd ar hyn o bryd
- Cyfleon ehangach i'r disgyblion a staff
- Cynnal a gwella safonau dysgu a chyrhaeddiad
- Ymgodymu gyda'r agenda toriadau drwy rannu adnoddau ar draws y ffederasiwn
- Newid dalgylchol – galluogi'r ysgolion gwledig i gael budd o'r Campws Gydol Oes
- Sicrhau fod y gyfundrefn addysg o fewn y dalgylch o fewn fframwaith cydweithio cadarn i sicrhau'r cyfleoedd i holl ddisgyblion y dalgylch

7.7 **Beth fyddai oblygiadau ffedereiddio i dair ysgol wledig y dalgylch?**

7.7.1. Byddai ffederasiwn yn sicrhau cydbwysedd rhwng diogelu hunaniaeth a chymeriad yr ysgolion gwledig, ond eto'n gosod seilwaith cadarn ar gyfer gweithio'n strategol gyda'i gilydd a chynnig cyfle i fanteisio ar adnoddau'r Campws Gydol Oes drwy gyfrwng y Cydbwyllgor:

- Un corff llywodraethol dros y tair ysgol
- Dyraniad ariannol pob ysgol yn aros yr un fath
- Enw a statws pob ysgol yn parhau
- Mater i'r corff llywodraethol fyddai newid unrhyw drefniadau i'r ysgol
- Arolwg Estyn i bob ysgol

- Nid cau na chyfuno ysgolion, tair ysgol yn parhau ond fel rhan o ffederasiwn

7.8 **Camau'r Broses Ffedereiddio**

7.8.1. Yn dilyn dyfodiad Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru ) 2014 y llynedd, mae gan awdurdodau lleol bŵer am y tro cyntaf i sicrhau fod ysgolion yn ffedereiddio. Mae ffedereiddio felly'n golygu dilyn camau penodol a chynnal proses o ymgynghori ble cesglir barn ar y bwriad o ffedereiddio. Dyma amlinelliad o'r broses yn cynnwys camau pendant i'w dilyn:

- **Cyfarfodydd cychwynnol**
- **Casglu barn a pharatoi adroddiad**
- **Ymgynghori statudol**
- **Llunio adroddiad ar yr ymatebion**
- **Penderfynu ffedereiddio ai peidio – gwneud hynny erbyn tymor yr Hydref 2015**
- **Ffederasiwn yn weithredol 1 Medi 2016**

7.9 **Sefydlu'r Cydbwyllgor**

7.9.1. Er mwyn sefydlu trefniadau llywodraethol effeithiol i bontio'r ddarpariaeth wledig a'r Campws Gydol Oes, yna bwriedir sefydlu cydbwyllgor rhwng y ffederasiwn a'r Campws er mwyn cryfhau'r berthynas. Byddai Cyd-bwyllgor yn cael ei sefydlu o dan reoliad 4 o Reoliadau Cydlafurio Rhwng Cyrff Addysg (Cymru) 2012, ac yn arwain at ffurfioli trefniadau gweithio ar y cyd rhwng y ffederasiwn a'r Campws Gydol Oes. Gall yr Awdurdod Lleol chwarae rhan yn y Cydbwyllgor, ac mae Adran 3 o Fesur Addysg (Cymru) 2011 yn rhoi dyletswydd bositif ar Awdurdod Lleol i ystyried arfer ei bwerau cydlafurio, e.e. drwy gydbwyllgor wrth arfer ei swyddogaethau eraill.

7.9.2. Byddai Cydbwyllgor yn dirprwyo swyddogaethau corff llywodraethol y ffederasiwn a'r Campws Gydol Oes i bwyllgor wedi ei sefydlu gyda chynrychiolaeth o'r Campws a'r Ffederasiwn. Nid oes gofyn i'r Cabinet wneud penderfyniad o ran y Cydbwyllgor, byddai hwnnw'n cael ei sefydlu wedi i'r Campws Gydol Oes agor ym Medi 2018, ond mae'n cael ei grybwyll yn yr adroddiad Cabinet yma fel bod y Cabinet yn cael darlun a dealltwriaeth glir o'r weledigaeth tymor hir ar gyfer addysg yn nalgylch Y Berwyn.

7.9.3. Byddai Cydbwyllgor yn:

- Sicrhau tegwch a dilyniant i holl ddisgyblion y dalgylch
- Yn ffurfioli'r berthynas rhwng yr ysgolion gwledig a'r Campws Gydol Oes er mwyn sicrhau fod y disgyblion gwledig yn cael budd
- Cynrychiolaeth o'r cyrff llywodraethu fydd aelodau'r Cydbwyllgor

- Ffordd i Uwch-arweinwyr y dalgylch gynllunio a rheoli'r ddarpariaeth addysgol er budd yr holl ddalgylch
- Galluogi'r Awdurdod Lleol i fod yn rhan ohono

7.9.4 Mae Adran 3 o Fesur Addysg (Cymru) 2011 yn rhoi dyletswydd bositif ar Awdurdodau Lleol i ystyried a fyddai arfer ei bwerau cydlafurio, e.e. drwy weithredu Cydbwyllgor yn hyrwyddo amcan y cydlafurio wrth iddo arfer ei swyddogaethau eraill.

## 8. EFFEITHIAU'R MODEL ARFAETHEDIG AR Y GYMUNED, YR IAITH GYMRAEG, CYDRADDOLDEB

### 8.1 Y Gymuned

8.1.1. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru (*Cod Trefniadaeth Ysgolion 006/2013*) yn nodi bod angen cynnal asesiad effaith cymunedol fel rhan o unrhyw gynnig i ad-drefnu ysgolion. Cwblhawyd astudiaeth effaith cymunedol ar y rhestr hir o fodelau posib.

8.1.2. Mae'r adroddiad llawn yn **Atodiad 3** o'r adroddiad hwn.

8.1.3. Gan nad oes unrhyw ysgol wledig yn cau, a bod yr ysgolion yn nhref y Bala yn symud i un lleoliad fel Campws Gydol Oes, does dim effaith nac oblygiadau cymunedol o bwys o wireddu'r Model arfaethedig.

### 8.2 Yr Iaith Gymraeg

8.2.1. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru (*Cod Trefniadaeth Ysgolion 006-2013*) yn nodi bod angen cynnal asesiad effaith ar yr Iaith Gymraeg fel rhan o unrhyw gynnig i ad-drefnu ysgolion. Cwblhawyd astudiaeth asesiad iaith ar y rhestr hir o fodelau posibl.

8.2.2. Mae'r adroddiad llawn yn **Atodiad 3** o'r adroddiad hwn.

8.2.3. Gan nad oes unrhyw safle gwledig yn cau, yna nid oes yna unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg. Bydd disgyblion Bro Tegid a Beuno Sant yn trosglwyddo i'r Campws Gydol Oes, a bydd disgyblion oedran 11-19 yn parhau i dderbyn addysg mewn sefydliad fydd yn cynnwys yr un trawstoriad o ddisgyblion ag Ysgol Y Berwyn ar hyn o bryd. Bydd categori iaith pob ysgol yn y dalgylch yn parhau'r un fath, sef categori Cyfrwng Cymraeg. Ceir cyfle hefyd i gryfhau ymhellach weithrediad polisi iaith Gwynedd drwy sicrhau dilyniant yn y defnydd o'r iaith Gymraeg, yn addysgol ac yn gymdeithasol.

### 8.3 Asesiad Cydraddoldeb

8.3.1. Cynhaliwyd asesiad cydraddoldeb ar restr hir y modelau posib. Mae'r asesiad yn rhoi sylw penodol i elfennau cydraddoldeb gwahanol megis hil, rhyw, anabledd, iaith, crefydd neu gred ac oedran. Mae'r asesiad yn nodi'r sefyllfa bresennol a'r polisïau a threfniadau sydd mewn lle a fyddai yn sicrhau fod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd â hawliau cyfartal. Mae'r adroddiad llawn yn **Atodiad 3** o'r adroddiad hwn.

8.3.2. Oherwydd bod nifer o fodelau yn nodi'r posibilrwydd o effeithio darpariaeth addysg gynradd Eglwysig, comisiynodd y Cyngor asesiad pellach gan ymgynghorydd annibynnol. Roedd yr asesiad yma yn asesu'r galw am wahanol fathau o ysgolion yn y dalgylch fel bo modd ystyried y galw yn lleol wrth benderfynu ar yr opsiwn a ffafrir. Mae'r model ffafriedig, yn ddibynnol ar y categori cyfreithiol a ffafrir yn cael effaith ar y dewis o wahanol ddarpariaeth addysgol yn y

dalgylch, o ran addysg gymunedol ac Eglwysig. Mae'r ffactor yma yn cael ystyriaeth lawn yn rhan 5 o'r adroddiad, ac mae modd gweld yr asesiad cydraddoldeb a'r asesiad angen am wahanol fathau o ysgolion yn **Atodiad 3** i'r adroddiad hwn.

8.3.3. Wedi pwyso a mesur y ffactorau perthnasol, deuir i'r casgliad bod sicrwydd yr hyrwyddir cyfleoedd cyfartal yn gadarnhaol yn sgil y cynnig a bod mesurau mewn lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithlon ac aflonyddu. Mae trefniadau mewn lle yn ogystal fydd yn monitro ac yn adolygu'r sefyllfa.

## 9. CASGLIADAU

9.1 Argymhellir ymgynghori'n statudol o dan Cod Trefniadaeth ysgolion (006/2013) ar y cynnig i sefydlu model Campws Gydol Oes yn nhref Y Bala oherwydd y cyfleoedd a ddaw yn ei sgìl. Bydd amryw o gyfleoedd i ddatblygu ar sylfaen ansawdd addysg a dysgu presennol. Bydd gweithredu'r cynnig i sefydlu Campws Gydol Oes 3-19 oed yn cael effaith ar lawer o'r heriau a geir ar hyn o bryd yn nalgylch y Berwyn, y rhelyw o'r rheini yn rhai sy'n ymwneud a'r ddarpariaeth addysgol yn nhref Y Bala. Byddai sefydlu Campws Gydol Oes yn gyfle arloesol i fynd i'r afael â'r heriau addysgol sydd yn y dalgylch. Byddai adeiladau ac adnoddau'r Campws Gydol Oes yn addas ar gyfer darpariaethau cwricwlwm a phrofiadau galwedigaethol cyfoes. Byddai hefyd yn adnodd newydd fyddai ar gael at ddefnydd disgyblion ysgolion gwledig y dalgylch yn ogystal â phlant a phobl ifanc y dalgylch a'r gymuned y tu allan i oriau arferol ysgol.

9.2 Argymhellir cynnal proses o ymgynghori er mwyn ystyried sefydlu ffederasiwn rhwng y tair ysgol wledig yn y dalgylch - Ysgolion OM Edwards, Ffridd Llyn a Bro Tryweryn, gyda'r bwriad o osod yr ysgolion gwledig mewn sefyllfa gadarn yn rheolaethol a llywodraethol er mwyn medru cydweithio'n agos efo'r Campws Gydol Oes a sicrhau fod holl ddisgyblion y dalgylch yn cael budd o'r buddsoddiad.

9.3 Bydd y cynnig yn:

- Gwella safonau addysg ar draws y dalgylch wrth alluogi hyblygrwydd ar draws holl oedrannau fel bod rhannu adnoddau, staff a chyfleusterau yn dod yn arfer safonol
- Cael effaith ar faint ac amrediad oedran o fewn dosbarthiadau
- Yn gwella cyflwr a safon stad ysgolion y dalgylch wrth fuddsoddi £9.27miliwn ar greu Campws Gydol Oes newydd a gwaredu dau safle
- Galluogi system uwch reoli modern newydd, bydd yn rhyddhau'r pennaeth o'r dosbarth, yn cynnig hyblygrwydd gyda'r strwythur staffio ar draws y sectorau, yn darparu cyfleoedd gyrfa newydd
- Sicrhau bod safle addysg o fewn pellter rhesymol i holl ddisgyblion y dalgylch
- Yn lleihau llefydd gweigion y dalgylch
- Yn rhoi oddeutu £85,000 o arbedion yn ei gyfanrwydd, ac yn rhesymoli amrediad cost y disgybl yn y dalgylch
- Yn rhoi'r cyfle gorau i geisio cyflawni'r polisi iaith, gan ddefnyddio'r adnoddau staffio dysgu mwy byddai gan un sefydliad i'r defnydd gorau ar draws gwahanol safleoedd y dalgylch
- Diogelu a chryfhau'r ddarpariaeth ôl-16 yn y dalgylch

## 10. CAMAU NESAF

10.1 Os bydd y Cabinet yn cytuno gydag argymhellion yr adroddiad hwn - bydd angen cynnal cyfnod o ymgynghoriad statudol yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 ac arweiniad y Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013), ar y bwriad o sefydlu Campws Gydol Oes 3-19 gyda statws VC yn nhref Y Bala.

10.2 Bydd angen hefyd cynnal proses o ymgysylltu ac ymgynghori'n statudol gyda'r ysgolion gwledig yn y dalgylch, o dan Reoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014 ar y bwriad o ffedereiddio'r tair ysgol wledig.

10.3 Bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno gerbron y Cabinet wedi hynny yn adrodd ar ganlyniadau'r ddau ymgynghoriad yma.

10.4 Bydd yn ofynnol wedyn i'r Cabinet gloriannu'r ymgynghoriad o ran y Campws Gydol Oes ac yn amodol ar farn y Cabinet, penderfynu a ddylid cyhoeddi Rhybudd Statudol i weithredu'r cynnig. Os cyhoeddir Rhybudd Statudol, bydd cyfnod o 28 diwrnod i unrhyw un gwrthwynebu. Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet am benderfyniad terfynol. Rhaid cofio bod rhai sefyllfaoedd lle bydd penderfyniad terfynol y Cyngor yn gallu cael ei gyfeirio at y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013).

10.5 Yn ddarostyngedig ar benderfyniadau'r Cabinet, dyma gamau nesaf y broses gydag amserlen amlinellol:

| Camau'r Daith | Amserlen Amlinellol |
|---|---|
| Adroddiad Cabinet - Caniatâd i Ymgynghori ar yr Opsiwn a Ffafrir | 19 Chwefror 2015 |
| Cyfnod Ymgynghori Statudol Campws Gydol Oes | Mawrth 4 – Ebrill 15 2015 |
| Cyfnod Ymgynghori Ffedereiddio | Mawrth - Ebrill 2015 |
| Adroddiad Cabinet yn dilyn ymgynghoriad statudol | Mai 2015 |
| Cyhoeddi Rhybudd Statudol a chyfle i ymgynghorai wrthwynebu | Mehefin 2015 |
| Penderfyniad Terfynol gan Gabinet y Cyngor<br>(posib i'r cynnig cael ei atgyfeirio i Weinidog Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru*)* | Medi 2015 |
| Gall y mater gael ei gyfeirio at Lywodraeth Cymru gan rai trydydd parti gan gynnwys yr Eglwys yng Nghymru. | Tua 6-7 mis gyda'r Llywodraeth |

## 11. ARGYMHELLION

11.1 Argymhellir felly:

i. I ymgymryd â phroses o ymgynghori statudol yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 i gau Ysgol Bro Tegid, Ysgol Beuno Sant ac Ysgol Y Berwyn. Y bwriad yw y bydd yr ysgolion yn cau ar 31 Awst 2018.

ii. I ymgymryd â phroses o ymgynghori statudol yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 ar yr opsiwn a ffafrir, sef i sefydlu Campws Dysgu Gydol Oes 3-19 Cyfrwng Cymraeg statws gwirfoddol a reolir, (VC), ar safle presennol Ysgol Y Berwyn. Y bwriad yw y bydd yr ysgol yn agor ar 1 Medi 2018.

ii. I ymgymryd â phroses o ymgynghori statudol ar ffedereiddio tair ysgol wledig dalgylch Y Berwyn, sef Ysgolion Bro Tryweryn, Ffridd y Llyn ac OM Edwards.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Prif Weithredwr:**
"Mae sawl elfen allweddol y mae'n rhaid i'r Cabinet fodloni ei hun yn ei gylch, yn cynnwys yr achos busnes ar gyfer y datblygiad. Yn ogystal, wrth gwrs, mae goblygiadau hefyd i statws eglwysig un o'r sefydliadau a gallai hynny gael effaith arwyddocaol ar yr amserlen gweithredu.

Fodd bynnag, o ran y mater sydd gerbron y Cabinet heddiw, mae hynny'n gymharol syml gan fod y penderfyniad a geisir yn rhan o broses sydd yn symud at wireddu canlyniad y mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio tuag ato ers tro bellach sef sicrhau trefniadaeth ysgol gynaliadwy o ansawdd ar gyfer plant y dalgylch."

**Y Swyddog Monitro:**
"Mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn gofyn am yr hawl i ymgymryd a phroses ymgynghori statudol ar gyfer dwy brif elfen sef trefniadaeth ysgolion o fewn tref y Bala a sefydlu ffederasiwn ymhlith ysgolion cynradd gweddill y dalgylch. Mae'r adroddiad yn gofyn i'r Cabinet adnabod opsiwn a ffefrir i'w adnabod yn yr ymgynghoriad. Fodd bynnag mae angen cadw mewn cof mai ymgynghoriad sydd yma a bydd angen cadw meddwl agored ynglŷn a'r penderfyniad ar y model terfynol hyd onir adroddir yn ôl ar ganlyniadau'r ymgynghoriad".

**Y Pennaeth Cyllid:**
**"**Mae hanes hir i'r cynlluniau hyn, ac ar bob cam mae swyddogion Cyllid wedi cydweithio gyda'r Adran Addysg wrth ddatblygu ffigyrau ariannol. Gallaf gadarnhau, felly, fy mod yn fodlon â chywirdeb y ffigyrau sydd yn ymddangos yn rhan 5.10 o'r adroddiad. Rwyf yn argyhoeddedig fod yr achos busnes yn parhau'n gadarn, ac mae rhesymau amlwg i gefnogi'r argymhellion a gweithredu heb oedi pellach**."**

---

**Atodiadau**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Gwerthusiad Opsiynau |
| **Atodiad 2** | Ymateb yr Eglwys yng Nghymru i'r Rhag-ymgynghoriad |
| **Atodiad 3** | Asesiadau Ardrawiad Ieithyddol, Cymunedol, Cydraddoldeb a'r Angen am Wahanol Fathau o Ysgolion |

**Pecyn Cefndirol**

Bydd copïau o'r pecyn cefndirol wedi ei yrru at Aelodau'r Cabinet ac ar gael ar wefan y Cyngor www.gwynedd.gov.uk/trefniadaethysgolion neu drwy gysylltu â trefniadaeth.ysgolion@gwynedd.gov.uk.

Bydd y pecyn cefndirol yn cynnwys:

- Adroddiad Cyngor Llawn 15 Gorffennaf 2010
- Adroddiad Cyngor Llawn 12 Mai 2011
- Adroddiad Cabinet 1 Ebrill 2014
- Cofnodion PAD 6 Mai 2014
- Cofnodion PAD 14 Ionawr 2015
- Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013)
- Dogfen Ffydd Mewn Addysg - Llywodraeth Cymru (2011)
- Pecyn Ystadegol